



plaid
gydweithredol
cymru



wales
co-operative
party

PERCHEN^{AR Y} DYFODOL

**AGENDA
GYDWEITHREDOL I
GYMRU 2021**



RHAGARWEINIAD

Sefydlwyd y Blaid Gydweithredol ym 1917 fel llais gwleidyddol y symudiad cydweithredol yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rhan o Symudiad Cydweithredol byd-eang sy'n cynnwys mwy na biliwn o bobl ym mhedwar ban byd.

Rydym yn gweithio gyda'r Blaid Lafur i ddylanwadu ar ei pholisïau ac annog atebion mwy cydweithredol drwy ein Haelodau Llafur a Chydweithredol yn y Senedd, aelodau senedd y DU, aelodau o senedd yr Alban, arglwyddi, comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, meiri wedi'i hethol a channoedd o gynghorwyr lleol.

Mae sefydliad cydweithredol yn sefydliad sy'n eiddo ei aelodau ac sy'n cael ei reoli ganddynt. Gweithwyr sy'n berchen ar gydweithfeydd gweithwyr ac yn eu rheoli, a defnyddwyr sy'n berchen ar gydweithfeydd defnyddwyr ac yn eu rheoli; tenantiaid sy'n berchen ar gydweithfeydd tai ac yn eu rheoli; aelodau ffermwyr sy'n berchen ar gydweithfeydd amaethyddol ac yn eu rheoli; adneuyddion sy'n berchen ar undebau credyd ac yn eu rheoli.

Ledled y byd, mae 3 miliwn o gydweithfeydd yn darparu swyddi neu gyfleoedd gweithio i 10% o'r

boblogaeth gyflogedig. Mae'r 300 o gydweithfeydd neu gwmnïau cydfuddiannol mwyaf yn creu \$2,035 biliwn wrth ddarparu'r gwasanaethau a'r isadeiledd y mae eu hangen ar gymdeithas i oroesi. Mae'r mentrau hyn yn chwarae rolau cymdeithasol ac economaidd arwyddocaol yn eu cymunedau.

Mae maint a chwmpas y symudiad cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru yn sylweddol, a chaiff ei amcangyfrif yn rhy isel yn aml. Mae'n darparu gwasanaethau ariannol o feintiau amrywiol o Gymdeithas Adeiladu Principality i undebau credyd lleol; a siopau manwerthu, o'r Co-operative Group i gydweithfeydd cymunedol lleol. Mae busnesau cydweithredol yn cynnal gwasanaethau angladd, tai cymdeithasol, gofal yn y cartref, gofal plant, gofal preswyl, cynlluniau ynni gwyrdd a phob ffurf o fusnes newydd a thraddodiadol y mae cyflogaion yn berchen arno, gan gyfrannu £3 biliwn i economi Cymru.

Mae ganddynt un peth yn gyffredin – maent yn darparu swyddi ac yn creu cyfoeth mewn llawer o gymunedau Cymru, a chânt eu rheoli gan y bobl maent yn eu gwasanaethu neu sy'n gweithio iddyn nhw.



Cyfraniad y Blaid Gydweithredol i'r dasg o bennu cyfeiriad y Blaid Lafur yng Nghymru yn y dyfodol yw'r ddogfen hon. Mae wedi'i llunio yng nghysgod COVID-19 ond mae'n cynnwys cred gadarnhaol yn yr arweinyddiaeth a roddwyd yng Nghymru drwy gydol 2020 ac uchelgais clir sy'n rhoi Cymru ar flaen y gad yn y Gymanwlad Gydweithredol.

Yn y ddau ddegawd ers i ddatganoli arwain at sefydlu Llywodraeth Cymru, rydym ni wedi cyfrannu'n sylweddol a sicrhau bod Cydweithrediaeth yn llinyn euraidd sy'n rhan gyson o stori Cymru yn yr 21ain ganrif ac rydym wedi cael ein gwobrwyo gyda brwdfrydedd arweinyddiaeth Plaid Lafur Cymru i fabwysiadu Cydweithrediaeth.

Nid yw hyn erioed wedi bod yn gliriach nag yn 2020 – blwyddyn y pandemig. Yn hytrach na chael eu diystyru yn ystod y pandemig, mae buddion dilyn egwyddorion cydweithredol wedi bod yn enwedig o amlwg ers dyfodiad COVID-19. Mae arweinyddiaeth y Prif Weinidog Mark Drakeford a'r Gweinidog Iechyd Vaughan Gething wedi rhoi eglurder i'r cyhoedd yng Nghymru, ac mae wedi'i seilio ar yr angen am gydweithredu i fynd i'r afael â'r feirws ac yn llawn ymdeimlad o gymuned a chydgefnogaeth,

sef egwyddorion craidd cydweithrediaeth ar waith.

Mae gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag arweinwyr llywodraeth leol ac wedi apelio am gydgefnogaeth gymunedol wrth iddynt weithio yn ystod adeg ddigynsail i wneud y gorau i'r cyhoedd. Mae cyrff heb eu datganoli wedi ymateb yn gadarnhaol i weithio mewn amgylchedd datganoledig adeiladol, ac mae hyn diolch i'r rôl a chwaraewyd gan ein dau Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Llafur a Chydweithredol. Ac er bod ymateb i'r pandemig wedi galw am amser, egni ac adnoddau sylweddol gan yr holl asiantaethau, rydym ni wedi bod yn dyst i ddatblygiadau cadarnhaol yng Nghymru o ganlyniad i'r ymdeimlad o gydweithio a chydgefnogaeth.

Mae cydweithredu yn cynnig llinyn euraidd o ddemocratiaeth ystyrlon rydym yn gobeithio y bydd yn rhedeg drwy bob rhan a sector o Economi Bywyd Cyhoeddus Cymru – a dyma ein cyfraniad at stori Plaid Lafur Cymru yn y dyfodol. ●

CYMRU YN Y DU AC YN Y BYD

Yn y Blaid Gydweithredol, rydym yn angerddol ac yn ymroddedig i wneud yr hyn sydd orau i Gymru, ac etholwyd 11 o aelodau cyfredol yn y Senedd fel Aelodau Llafur Cydweithredol – ond mae'r Blaid Gydweithredol hefyd yn rhan o symudiad gwleidyddol bywiog yn y DU a symudiad byd-eang o gydweithwyr sy'n cynnwys mwy na biliwn o aelodau o bedwar ban byd.

Fel llais gwleidyddol y symudiad cydweithredol, rydym yn ymroddedig i adeiladu cymdeithas lle mae pŵer a chyfoeth yn cael eu rhannu. Rydym yn credu mewn perchnogaeth gyhoeddus ddemocrataidd o'r gwasanaethau a'r amwynderau rydym ni'n dibynnu arnynt, wrth fynd i'r afael â'r argyfwng tai drwy gydweithfeydd tai, gan rymuso dilynwyr clybiau chwaraeon i gael dylanwad arnynt, a galluogi undebau credyd lleol i ddarparu mynediad diogel ac ar sail egwyddor at gyllid i bawb, a siopau y mae cwsmeriaid yn berchen arnynt i roi'n ôl i'r gymuned leol. Gan weithio mewn partneriaeth â Phlaid Lafur Cymru, mae'r Blaid Gydweithredol yn llais dros werthoedd ac egwyddorion cydweithredol o gymunedau lleol hyd at y lleoedd lle caiff penderfyniadau eu gwneud a deddfau eu creu.

Cymerwyd y penderfyniad i greu Plaid Gydweithredol yng Nghymru – mewn cynhadledd y DU a gynhaliwyd yn Neuadd Albert Abertawe, ym 1917 – ac mae ein gwreiddio'n ymestyn yn

nwfn i gymunedau Cymru. Yn y gorffennol, mae ystyriaethau gwleidyddol ehangach wedi bod yn rhwystr i opsiynau cydweithredol ymarferol yng Nghymru yn aml iawn, ond dylai'r hyder cynyddol yn ein gallu i lunio ein hatebion ein hunain hebrwng ethos cydweithredol newydd yng Nghymru ym mhob agwedd ar fusnes, gwasanaethau cyhoeddus a thwrf cymunedol. Mae perchnogaeth y diwydiant dŵr yng Nghymru yn enghraifft unigryw o sefydliad wedi'i seilio ar egwyddorion cydweithredol, gan gynnig buddion i'w cwsmeriaid ers ei sefydlu, ac mae gennym y potensial i ddefnyddio'r un ymagwedd radical at feysydd megis y rheilffyrdd a dyfnhau'r elfen gydweithredol ym meysydd tai a gofal cymdeithasol. Dyma'r opsiynau rydym yn ceisio eu datblygu ar y cyd â Phlaid Lafur Cymru yn y cam nesaf ar ein taith ddatganoli.

Rydym yn lleol ac yn rhyngwladol ein natur – rydym yn gwrthod y safbwynt cul, tymor byr sydd wedi arwain Llywodraeth y DU i roi'r gorau i'w hymrwymiad i fuddsoddi 0.7% o incwm cenedlaethol ar ddatblygu rhyngwladol – ac rydym ni am i Gymru a'r DU chwarae rhan lawn yn y broses o adeiladu byd sy'n well, yn decach ac yn lanach. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd yn berffaith ag uchelgeisiau Plaid Lafur Cymru a'n cyfraniad at adeiladu arweinyddiaeth uchelgeisiol a llwyddiannus i Gymru yn y trydydd degawd o'n taith ddatganoli yw'r ddogfen hon. ●



GWNEUD HI'N WAHANOL MEWN CYMRU GYDWEITHREDOL

Gan weithio mewn partneriaeth â Phlaid Lafur y DU, mae'r Blaid Gydweithredol yn datblygu glasbrint ar gyfer dyblu maint y sector cydweithredol yn ystod y llywodraeth Lafur a Chydweithredol nesaf, gan roi cyfle i gwsmeriaid, y gymuned a'r rhai hynny sy'n gweithio yn niwydiant neu wasanaethau chwarae rôl lawn a theg mewn penderfyniadau. Mae'n ymagwedd sy'n deg i bawb – ond nid yw'n gyfyngedig i greu fframwaith modern ar gyfer gweithgareddau masnachol. Rydym ni hefyd yn credu mewn datblygu modelau newydd i ddod â sectorau allweddol megis cludiant ac amwynderau i berchnogaeth gyhoeddus ddemocrataidd sy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn atebol.

Yng Nghymru, mae arweinyddiaeth y Blaid Lafur yng Nghymru yn cynnig y cyfle i fynd ymhellach, yn gyflymach na gweddill y DU, gan ddatblygu ymhellach gwaith Comisiwn Cydweithredol Cymru a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, a rhoi egwyddorion cydweithredol ar waith mewn meysydd megis tai a chludiant, gofal cymdeithasol ac addysg yn ogystal â busnes. Dyma'r egwyddorion a'r syniadau rydym yn eu cynnig wrth inni weithio gyda'n chwaer-blaid, y Blaid Lafur, wrth baratoi ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2021. ●



GWELEDIGAETH GYDWEITHREDOL AR GYFER CYFIAWNDER

Meewn etholiad cyfochrog, hefyd ym mis Mai, bydd Cymru yn ethol pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau a bydd pleidleiswyr ym mhob rhan o Gymru'n gallu bwrw pleidlais dros ymgeisydd Llafur a Chydweithredol ar gyfer y swydd o Gomisiynydd. Mae hanes profedig pwerus wedi'i sefydlu gan ein dau Gomisiynydd presennol – yn ne Cymru ac yng Ngwent – gyda llwyddiant wrth gymryd ymagwedd Iechyd Cyhoeddus at droseddau, anrhefn a niwed. Maent wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gan eu cymunedau'r ymateb gorau posib pan fydd angen cymorth, ond maent hefyd yn arwain datblygiadau i ymyrryd yn gynnar i atal niwed rhag cynyddu, ac atal troseddau yn y lle cyntaf a sicrhau bod swyddogion yr Heddlu a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhan hanfodol

o'r cymunedau maent yn eu plismona.

Mae hynny wedi cynnwys ymagwedd gydweithredol ar y cyd ag asiantaethau cyfiawnder troseddol heb eu datganoli yn ogystal â phartneriaeth agos â Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Mae hyn amlycaf yn angerdd a rennir ein Comisiynydd a'n Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phla trais a cham-drin domestig, trais rhywiol a chamfanteisio ar blant ac oedolion. Maent wedi dangos pa mor bwerus gall rhoi'r egwyddor o gydweithio fod os yw'n rhedeg fel llinyn euraidd drwy wasanaeth cyhoeddus.

Ers etholiadau diwethaf y Senedd, mae'r byd, a Chymru ynddo, wedi newid y tu hwnt i gydnybuddiaeth. Wrth iddo ddod i'r amlwg bod

rhai agweddau ar fywyd na fydd byth yn dychwelyd i 'normal', rydym ni hefyd yn gwybod bod rhai agweddau na fyddem ni am iddynt ddychwelyd i'r arfer.

Mae arolygon barn diweddar yn dangos bod 10% yn unig o bobl y DU yn teimlo bod rhannu cyfoeth yn cael ei flaenoriaethu yn yr economi cyn y coronafeirws, ond mae 62% yn credu y dylai gael ei flaenoriaethu yn ystod yr adeg o adfer. Mae 69% o bobl yng Nghymru yn meddwl y byddai'r economi yn decach petai mwy o fusnesau dan berchnogaeth cyflogaion a chymunedau yn hytrach na dan berchnogaeth rhanddeiliaid preifat.

Gyda'r heriau enfawr o ailadeiladu economi Cymru, ceir cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol, a chreu Cymru sy'n decach.

Mae angen adferiad sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, gan sicrhau y golyga dychwelyd i gynhyrchiant gynhyrchu mwy o'r hyn mae ei angen, megis bwyd iach a fforddiadwy, cartrefi cynnes, ynni gwyrdd, a llai o'r hyn nad oes ei eisiau arnom. Ni ellir cysylltu dychwelyd i gyfoeth a chynhyrchiant â chynhyrchu nwyddau bywyd byr a gwastraff.

Mae angen adferiad arnom sy'n gynaliadwy yn economaidd. Golyga hyn fuddsoddi yn yr economi sylfaenol ac mewn swyddi dan berchnogaeth leol sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau.

Ym mis Mehefin 2020, lansiodd y Blaid Gydweithredol y ddogfen [Perchen ar y Dyfodol: cynllun cydweithredol ar gyfer adferiad](#). Gallwch ddarllen rhagor am hynny yma.

Mae effaith Covid-19 ar ein cymdeithas wedi dangos y gallwn ymateb i argyfwng gyda charedigrwydd, a chymunedau – nid corfforaethau – sydd wedi cymryd yr awenau. Fodd bynnag, mae'r rheolau sy'n llywodraethu'r economi yn ffafrio busnesau sydd dan berchnogaeth cyfranddeiliaid neu breifat – gan olygu bod perchnogaeth ar y brig yn bennaf. Mae'r cwmnïau hynny yn dioddef o feddylfryd tymor byd, ac mae hyn yn cynyddu anghydraddoldeb o ganlyniad i gynhyrchiant isel a diffyg buddsoddiad mewn cyflogau. Drwy ehangu perchnogaeth, gallwch leihau anghydraddoldeb a chreu normal newydd. ●

Y CYNNYDD HYD YN HYN

Gweinidog dros Gydweithfeydd

Am flynyddoedd lawer, mae'r Blaid Gydweithredol wedi galw am Weinidog gyda chyfrifoldeb penodol dros y sector cydweithredol. Roedd hyn yn ofyniad allweddol yn Agenda Gydweithredol i Gymru 2016 a'i rhagflaenyddion. Felly, roeddem ni wrth ein boddau pan wnaeth Mark Drakeford gynnwys yr economi gydweithredol yng nghylch gorchwyl y Gweinidog Economi a Chludiant fel un o'r penodiadau cyntaf oll yn dilyn ei ethol fel Prif Weinidog yn 2018.

Y Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol

Amlygodd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, y rôl sydd gan gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol i'w chwarae mewn mentergarwch, addysg a'r amgylchedd, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus a chwaraeon. At hynny, dangosodd ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i sicrhau twf parhaus y symudiad cydweithredol yng Nghymru.

Mae rhai o'r polisiâu mewn Agenda Gydweithredol i Gymru 2016, megis cefnogaeth a chydnabyddiaeth ar gyfer cynghrair i gryfhau cysylltiadau a chymorth cydfuddiannol ar draws pob rhan o'r symudiad yng Nghymru hefyd yn argymhellion y Comisiwn ac maent wedi'u rhoi ar waith (y Gynghrair Gydfuddiannol). ●

CRYNODEB O ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU

Datblygu ar sail y Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol

1. Proses glir yn Llywodraeth Cymru i gydlynu ac ysgogi gweithredoedd y Comisiwn sy'n rhan o'i gylch gorchwyl.
2. Cefnogi'r sector cydweithredol a chydfuddiannol i gymryd camau ar yr argymhellion hynny sydd o fewn cylch gorchwyl y symudiad.
3. Uned Strategaeth Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol awdurdodol i sicrhau y caiff yr argymhellion eang ac amrywiol a wnaed gan y Comisiwn eu rhoi ar waith. Dylai hyn gael ei arwain gan Ddirprwy Weinidog gyda chylch gorchwyl penodol i ddatblygu'r economi gydweithredol, fel y mae ar hyn o bryd.
4. System ar gyfer adolygu ac adrodd am gynnydd yn rheolaidd.

Yr Economi a Chludiant

5. Deddf Marcora i Gymru i ddarparu fframwaith cyfreithiol, cymorth ariannol a chyngor ar gyfer pryniant gan weithwyr.¹
6. Cymorth parhaus i Ganolfan Gydwethredol Cymru fel asiantaeth datblygu cydweithredol blaenllaw.
7. Cyfeirio clir at yr opsiwn cydweithredol gan asiantiaid cyngor busnes eraill.
8. Ymrwymiad statudol a chytundebol i adeiladu cyfoeth cymunedol a chaffael blaengar gan y sector cyhoeddus a sefydliadau angor eraill i sicrhau y caiff y cyfoeth ei greu – a'i gadw – mewn cymunedau lleol.
9. Cefnogaeth i economïau gwledig i gynnwys datblygiad pellach cydweithrediaeth eilaidd ym maes amaethyddiaeth a thwristiaeth i hyrwyddo economïau ar raddfa a marchnata ar y cyd.
10. Cefnogaeth i drefi a strydoedd mawr i gynnwys datblygiad pellach cydweithrediaethau eilaidd a hybiau ym maes amaethyddiaeth a thwristiaeth i hyrwyddo economïau ar raddfa a marchnata ar y cyd ar gyfer y sectorau sylfaenol.
11. Ymrwymiad i'r cyflog byw gwirioneddol ar

**GALLWCH DDARLLEN RHAGOR AM BOLISI
Y BLAID GYDWEITHREDOL AR DDATBLYGU
CYFOETH CYMUNEDOL YMA.**

**RYDYM YN CROESAWI PENDERFYNIAID
LLYWODRAETH CYMRU I DDOD Â
MASNACHFRAINT RHEILFFYRDD CYMRU A'R
GORORAU I BERCHNOGAETH GYHOEDDUS.
NAWR, DYLAID HYN BONTIO I FODEL
CYDFUDDIANNOL SY'N RHOI LLAIS I STAFF A
DEFNYDDWYR.**

- draws y sector cyhoeddus a chaffael yn y sector cyhoeddus.
12. Deddfwriaeth i gyflwyno Cofrestri Asedau Cymunedol i alluogi asedau o werth cymunedol i gael eu nodi a'u hamddiffyn.
 13. Opsiynau cymunedol i dafarndai, siopau, canolfannau cymunedol a chyfleusterau cymunedol a Hawl Gymunedol i Wrthodiad Cyntaf, wedi'i gefnogi gan gloeon asedau.
 14. Hyrwyddo rôl weithredol i aelodau anghynwysedig o gymdeithas Cymru a chymunedau lleol wrth ddylunio a rheoli busnesau.
 15. Hyrwyddo rheoleiddio cludiant cyhoeddus er budd pob defnyddiwr ac amddiffyn rôl cludiant cymunedol ac ar gyfer darparwyr cydweithrediaethau a mentrau cymdeithasol.
 16. Gweithio gyda defnyddwyr a staff y rheilffyrdd a defnyddio arbenigedd ac arfer gorau ar draws y symudiad cydweithredol i ddatblygu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau fel gwasanaeth dan berchnogaeth gyhoeddus, a reolir ar y cyd.

**DARLLENWCH RAGOR AM YMGYRCH
PERCHNOGAETH GYHOEDDUS Y
BLAID GYDWEITHREDOL YMA - MAE
PERCHNOGAETH O BWYS – Y BLAID
GYDWEITHREDOL.**

Cyfiawnder Bwyd

17. Cynnwys mynediad at fwyd iach, fforddiadwy i bawb fel dangosydd cenedlaethol, a monitro data ar ddiogelwch bwyd a maeth i grwpiau sy'n agored i niwed yn y boblogaeth i asesu effeithiolrwydd polisiâu a rhaglenni ar ddiogelwch bwyd a maeth.
18. Comisiwn Bwyd i Gymru i gyfarwyddo a monitro strategaeth fwyd drawsadrannol, gan gynnwys addysg, amaethyddiaeth,

¹ Gweler [The Marcora Law supporting worker buyouts for thirty years](#) | ICA

- amgylchedd, iechyd, economi a chymdeithas.
19. Rhaglen genedlaethol, megis Origin Green, a fydd yn hyrwyddo cynhyrchiant bwyd cynaliadwy, cefnogi cydweithrediad ym mhob rhan o'r sectorau amaethyddol a bwyd a helpu i sicrhau bod mynediad i bawb at fwyd sy'n iach, yn fforddiadwy ac o darddiad lleol.²
 20. Cefnogi atebion cydweithredol ym maes prosesu bwyd a'i ddosbarthu, megis hybiau bwyd i ddatblygu economïau lleol, cefnogi cynhyechwyr BBaCh a chydweithredol, lleihau effaith amgylcheddol cludiant a gwneud hi'n bosib defnyddio adnoddau'n well.
 21. Cefnogi cwmnïoedd cydweithredol bwyd ffres a mentrau cymunedol cydweithredol megis Incredible Edible, gan gynnwys nodi tir sydd ar gael ar gyfer tyfu cymunedol.³

BU'R BLAID GYDWEITHREDOL YN ARWAIN YMGYRCHOEDD CYFIAWNDER BWYD DRWY GYDOL 2020. GALLWCH DDARLLEN RHAGOR AM Y RHAIN YMA.

Addysg a Dysgu Gydol Oes

22. Sicrhau bod moesau a modelau cydweithredol wrth wraidd busnes a chwricwla dinasyddiaeth a'r ffordd y caiff ein plant eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau.
23. Mae costau gofal plant yng Nghymru yn cynyddu ac mae gan lai na hanner ardaloedd lleol ddigon o leoedd i rieni sy'n gweithio llawn amser.⁴ Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, ynghyd â Dechrau'n Deg, yn cynnig cymorth mawr ei angen i gael gofal plant fforddiadwy, ond dylid darparu modelau cydweithredol ac nid-er-elw i gynyddu argaeledd gofal blynyddoedd cynnar fforddiadwy a hyblyg lle mae gan rieni, gofalcwyr a staff lais a budd ynddo.
24. Gwneud adnoddau yn hygyrch i gefnogi hyfforddiant i athrawon a hyrwyddo dysgu a modelau cydweithredol ymarferol, dan arweiniad lleol, i gefnogi'r broses o'u cyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd.
25. Cefnogi [Cydweithredwyr Ifanc](#) mewn ysgolion i gynnal busnesau i hyrwyddo a darparu profiad cydweithredol ymarferol.
26. Datblygu ar sail yr egwyddorion rhagorol a bennwyd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gydnabod y byddwn yn methu'r genhedlaeth nesaf oni bai y caiff addysg a sgiliau anffurfiol eu datblygu drwy chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau drwy'r Gwasanaeth Ieuencid a grwpiau cymunedol – a bod hyn yn fater cydraddoldeb allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc mewn teuluoedd

27. Diwrnod Robert Owen Cenedlaethol i amlygu addysg ar gyfer cymdeithas well a rôl cydweithrediaeth yn economi Cymru ac yn fyd-eang.

GALLWCH DDARLLEN RHAGOR AM BOLISIÂU ADDYSG Y BLAID GYDWEITHREDOL YMA

Yr Amgylchedd

28. Ystyried ffyrdd pellach o gefnogi a hyrwyddo cynlluniau ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth gweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys yr opsiwn o Uned Ynni Cymunedol a Newid yn yr Hinsawdd.
29. Arwain y sectorau cyhoeddus a phreifat, cymunedau ac unigolion yng Nghymru tuag at Gymru Carbon Niwtral.
30. Cefnogi modelau busnes cydweithredol yn yr economi gylchol a chyfeirio cymorth busnes, hyfforddiant a phrentisiaethau tuag at ddiwydiannau atgyweirio ac ailgylchu.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

MAE POLISIÂU'R BLAID GYDWEITHREDOL WEDI'U HAMLINELLU'N LLAWN YN EIN DOGFEN POLISI – [BARGEN WERDD NEWYDD A CHYDWEITHREDOL: PAPUR POLISI AR NEWID YN YR HINSAWDD, YNNI A'R AMGYLCHEDD – Y BLAID GYDWEITHREDOL](#)

31. Ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o wella gofal cynradd, megis cydweithrediaethau clinigwyr er mwyn darparu gwasanaethau y tu allan i oriau swyddfa a mentrau cymdeithasol megis cymdeithasau budd cymunedol yn hytrach na phractisiau preifat ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG.
32. Cydnabod ac annog rôl weithredol i holl aelodau'r gymuned wrth ddylunio a rheoli gwasanaethau.
33. Cefnogaeth weithredol i gydweithfeydd gofal cymdeithasol, gan gynnwys cydweithrediaethau micro i'w datblygu yn sgîl y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a ariannwyd yn gyhoeddus.

Tai a Llywodraeth Leol

GALLWCH DDARLLEN RHAGOR AM BOLISIÂU GOFAL CYMDEITHASOL Y BLAID GYDWEITHREDOL YMA.

² Dysgu o enghreifftiau o arfer gorau ym mannau eraill, megis [Origin Green](#) yn Iwerddon.

³ Gweler [Incredible Edible Wrecsam – Incredible Edible](#)

⁴ <https://www.familyandchildcaretrust.org/welsh-families-face-rising-tide-childcare-costs-prices-rise-again>

34. Annog Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig presennol i fabwysiadu egwyddorion cydweithredol a'u cefnogi wrth droi'n gwmnïoedd cydfuddiannol a chydweithredol pan fydd cefnogaeth ar gyfer yr ymagwedd honno ymhlith denantiaid a gweithwyr.
35. Cyfeirio 20% o raglen grantiau tai cymdeithasol y dyfodol at gartrefi cydfuddiannol neu gydweithredol. Dylai'r holl gynlluniau tai wedi'u rhentu â mwy na 25 o gartrefi wneud cynnig cydfuddiannol neu gydweithredol i breswylwyr. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol sy'n ystyried adeiladu tai cyngor newydd yn dilyn pwerau benthyc.
36. Ehangu rôl cefnogi datblygiad Canolfan Cydweithredol Cymru i alluogi cefnogi datblygiad a rheolaeth y cydweithrediaethau yn y dyfodol.
37. Cefnogaeth, a deddfwriaeth os bydd angen, ar gyfer cydweithrediaeth lesddeiliadaeth cenedlaethol.
38. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r opsiwn i gyflwyno'n gydweithredol ac annog awdurdodau lleol i weithio gyda chyflogaion a defnyddwyr gwasanaeth i drafod blaenoriaethau gwasanaeth a dylunio gwasanaethau.
39. Annog awdurdodau lleol i hyrwyddo modelau darpariaeth gwasanaeth cydweithredol neu aml-randdeiliaid lle byddai gan y rhain siawns cryf o wella neu amddiffyn y gwasanaeth a swyddi.
40. Annog awdurdodau lleol i gefnogi a chaffael o gwmnïoedd cydweithredol a chydffuddiannol

GALLWCH DDARLLEN RHAGOR AM SYNIADAU'R BLAID GYDWEITHREDOL AR GYFER LLWYWODRAETH LEOL YMA.

- fel ffordd deg a chynaliadwy o hyrwyddo datblygiad economaidd lleol.
41. Parhau i gefnogi awdurdodau lleol i roi'r gorau i gaethwasiaeth fodern a sicrhau y caiff hyn ei fonitro'n gywir.
 42. Hyrwyddo cysyniad Cyngorau Cydweithredol Cymru yn weithredol a chefnogi'r cyngorau hynny sydd eisoes wedi dangos ymrwymiad i'r model hwn.
 43. Cynnig cymorth cryf a chadarn i gefnogi effaith gweithio cydweithredol rhwng yr Heddlu a chyrff datganoledig, gan ddilyn ymagwedd sydd eisoes wedi cael effaith cadarnhaol yn ne Cymru.
 44. Cefnogi datblygiad modelau cydfuddiannol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhan o'r sector preifat ac 'er elw' ar hyn o bryd, gan gynnwys gofal preswyl ac yn y cartref, iechyd a chyn ysgol a gofal ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.
 45. Ystyried dichonoldeb troi Glas Cymru'n gwmni cydweithredol aml-randdeiliaid gwirioneddol, a fyddai'n sicrhau hyder hyd yn oed yn fwy ym

mherchnogaeth lawn a rheolaeth y gwasanaeth gan bobl Cymru, a'i fod yn atebol iddynt.

Trethi Cymru, Cyllid a Brexit

46. Cefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer banc cydweithredol cenedlaethol, ynghyd â rôl undebau credyd a fydd yn darparu gwasanaethau bancio i bob cymuned, gan roi mynediad gwell at gredyd fforddiadwy, cadw cyfoeth yn cylchredeg yng Nghymru a gweithio fel catalydd i adfywio canol trefi ledled Cymru.
47. Cefnogaeth barhaus ar gyfer datblygiad undebau credyd cynaliadwy, cryf yng Nghymru, hwyluso adnoddau a rennir a pharhau i gynnal ymgyrchoedd hyrwyddo ar eu rhan.
48. Sicrhau y caiff llythrennedd ariannol ei gynnwys ar bob lefel mewn ysgolion a cholegau.

Masnach Deg a Moesegol

49. Cynorthwyo wrth hyrwyddo gwelliant mewn safonau lles anifeiliaid, gan gynnwys penderfyniadau ar gaffael yn y sector cyhoeddus.
50. Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu polisiau masnach sydd o fudd i'r gwledydd tlotaf a'u rhoi ar waith, gan alluogi i'w llywodraethau ddewis yr atebion gorau i roi diwedd ar dlodi ac amddiffyn yr amgylchedd, yn enwedig ym meysydd amaethyddiaeth, rheoleiddio cwmnïoedd dŵr a safonau llafur craidd.

Chwaraeon a Hamdden

51. Cefnogi a hyrwyddo perchnogaeth gymunedol mewn chwaraeon.
52. Mae gweinyddiaeth Lafur Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth gefnogi'r celfyddydau a lleoliadau diwylliannol i oroesi argyfwng Covid-19. Yn ogystal â'r cymorth ariannol hanfodol hwn, dylid hyrwyddo perchnogaeth gymunedol a chydweithredol i helpu sector i adfer.

Cefnogi Cymunedau Diogel a Hyderus

53. Gweithio gyda chyrff heb eu datganoli yng Nghymru – ac yn enwedig gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau – i ddatblygu dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi cymunedau diogel a hyderus ledled Cymru.
54. Wrth ddadlau'r achos dros ddatganoli Plismona a Chyfiawnder Troseddol, gweithio ar gyflwyno tegwch a chyfiawnder yng Nghymru gan ddatblygu ymhellach y cynnydd a wnaed mewn blynyddoedd diweddar, sefydlu mentrau newydd i fynd i'r afael â chamdddefnyddio

sylweddau, lleihau trais a cham-drin domestig a dangos arweinyddiaeth sy'n mynd ymhellach na swyddogaethau datganoledig.

**MAE'R BLAID GYDWEITHREDOL WEDI
BOD YN ARWAIN YR YMGYRCH I ANNOG
CYNGHORAU LLEOL YN LLOEGR A'R ALBAN
I FYND I'R AFAEL Â CHAETHWASIAETH YN
UNOL Â SAFONAU A SEFYDLWYD EISOES YNG
NGHYMRU. GALLWCH DDARLLEN RHAGOR
AM HYN YMA – CAETHWASIAETH FODERN – Y
BLAID GYDWEITHREDOL.**

**GALLWCH DDARLLEN RHAGOR AM
SYNIADAU'R BLAID GYDWEITHREDOL AR
DDIOGELWCH YN Y GYMUNED YN EIN
CYHOEDDIAD – CYMUNEDAU CRYFACH A
MWY DIOGEL – Y BLAID GYDWEITHREDOL.**



PARRY
ar osod
01766 831 700



PERCHEN^{AR Y} DYFODOL

I gysylltu â'r Blaid Gydweithredol yng Nghymru neu ymuno â hi, ffoniwch 0207 367 4150, e-bostiwch mail@party.coop neu ewch i www.party.coop.

Golygwyd Agenda Gydweithredol i Gymru 2021 gan Karen Wilkie, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol, gan estyn diolch i bawb a wnaeth gwrdd, a wnaeth sylwadau, a gymerodd ran mewn gweithdai polisi neu a gynigodd sylwadau ar ddrafftiau.

Unit 13, 83 Crampton Street, Llundain
SE17 3BU

020 7367 4150

mail@party.coop

 [@CoopParty](https://twitter.com/CoopParty)

www.party.coop

Mae Co-operative Party Limited yn gwmni cofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Rhif cofrestredig 30027R.

Wedi'i hyrwyddo gan Joe Fortune ar ran y Blaid Gydweithredol, ill dau yn 83 Crampton Street, Llundain SE17 3BU. Argraffwyd gan Solopress, 9 Stock Road, Southend-on-Sea SS2 5QF.

 **PROUD TO
PAY OUR
FAIR SHARE**

We are a
**Living
Wage**
Employer



**plaid
gydweithredol
cymru**



**wales
co-operative
party**

